# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 5

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

## PENNOD 5

DARPARIAETH BELLACH MEWN PERTHYNAS Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG A RHEOLIADAU CYD-BWYLLGOR

*Darpariaeth mewn rheoliadau cyd-bwyllgor*

### 77 Darpariaeth y caniateir ei chynnwys neu y mae rhaid ei chynnwys mewn rheoliadau cyd-bwyllgor

(1) Rhaid i reoliadau cyd-bwyllgor ddarparu bod prif aelodau gweithrediaeth y prif gynghorau ar gyfer y prif ardaloedd yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig yn aelodau o'r pwyllgor.

(2) Pan fo'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol wedi ei phennu mewn rheoliadau cyd-bwyllgor a bod unrhyw ran o Barc Cenedlaethol yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch aelodaeth yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw o'r pwyllgor.

(3) Caiff rheoliadau cyd-bwyllgor wneud darpariaeth, yn benodol, ynglŷn ag—

(a) yn ddarostyngedig i is-adrannau (1) a (2), cyfansoddiad cyd-bwyllgor corfforedig (gan gynnwys ynglŷn â chyfethol aelodau i'r pwyllgor neu i unrhyw is-bwyllgor);

(b) enw cyd-bwyllgor corfforedig;

(c) sefydlu is-bwyllgorau i gyd-bwyllgor corfforedig;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(d) trafodion cyd-bwyllgor corfforedig ac unrhyw is-bwyllgor (gan gynnwys darpariaeth ynglŷn â hawliau pleidleisio);
(e) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i drefnu i berson arall arfer ei swyddogaethau;
(f) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i arfer, ar ran unrhyw berson, unrhyw swyddogaethau sydd gan y person hwnnw;
(g) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i arfer ei swyddogaethau, ac eithrio swyddogaethau o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), ar y cyd, neu drwy gydweithio fel arall, â pherson arall;
(h) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson;
(i) cydnabyddiaeth ariannol, lwfansau, treuliau, pensiynau neu ddigolledіad am golli swydd i aelodau o gyd-bwyllgor corfforedig neu o unrhyw is-bwyllgor;
(j) ariannu cyd-bwyllgor corfforedig;
(k) cyllid cyd-bwyllgor corfforedig, gan gynnwys darpariaeth ynglŷn ag—
    (i) cyd-bwyllgor corfforedig yn benthyca arian neu'n ei roi ar fenthyg;
    (ii) cyd-bwyllgor corfforedig yn rhoi neu'n cael cymorth ariannol;
    (iii) cyd-bwyllgor corfforedig yn codi ffioedd;
(l) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i wneud, at ddiben masnachol, unrhyw beth y caiff ei wneud wrth arfer ei swyddogaethau;
(m) perfformiad cyd-bwyllgor corfforedig (gan gynnwys gwneud pwyllgor yn destun craffu gan berson arall);
(n) cyd-bwyllgor corfforedig yn caffael, yn perchnogi neu'n gwaredu eiddo (tirol neu bersonol) neu hawliau (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer caffael tir yn orfodol);
(o) cyd-bwyllgor corfforedig yn cychwyn achos cyfreithiol neu'n cymryd rhan mewn achos cyfreithiol (gan gynnwys cymryd rhan mewn ymchwiliad cyhoeddus);
(p) pwerau Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i—
    (i) cyd-bwyllgor corfforedig;
    (ii) prif gyngor ar gyfer prif ardal yn ardal cyd-bwyllgor corfforedig;
    (iii) os yw'r rheoliadau cyd-bwyllgor yn pennu'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal cyd-bwyllgor corfforedig,

    ac ynglŷn â gorfodi'r cyfarwyddydau hynny;
(q) pŵer cyd-bwyllgor corfforedig i wneud pethau er mwyn hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i hynny neu'n gysylltiedig â hynny.

(4) At ddibenion is-adran (1), ystyr "prif aelod gweithrediaeth" yw—
(a) yn achos prif gyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet, yr arweinydd gweithrediaeth;
(b) yn achos prif gyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer etholedig.